Cenn@d

MEDI 12 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 186

# GWOBRWYO ENILLWYR MEDALAU GEE 2024

Eleni cyflwynir deg o Fedalau Gee i'r rhai a enwir isod. Diolchwn iddynt am eu ffyddlondeb a'u gweithgarwch dros achos Iesu Grist:

**Nerys Haf Biddulph – Rehoboth, Prestatyn**
**Angela Skym – Capel Newydd, Llanddarog**
**Eleri Price – Jerusalem, Cerigydrudion**
**Dorothy Jones – Jerusalem, Cerigydrudion**
**Nesta Richards – Jerusalem, Cerigydrudion**
**Enid Jones – Capel Pencae, Llanarth**
**Catrin Bell – Tabernacl, Caerdydd**
**Eirlys Pritchard Jones – Tabernacl, Caerdydd**
**Bill Davies – Tabernacl, Caerdydd**
**Ruth Davies – Tabernacl, Caerdydd**



## Cyflwyno Medalau Gee i dair o ffyddloniaid yr Ysgol Sul yng Ngherrigydrudion

Nos Sul, 8 Medi, daeth cynulliad da iawn at ei gilydd, yn aelodau, teulu a ffrindiau, a hynny i oedfa arbennig er mwyn cyflwyno medalau i Dorothy Jones, Eleri Price a Nesta Richards. Arweiniwyd yr oedfa gan Aled Davies o'r Cyngor Ysgolion Sul, cyn symud ymlaen i gyflwyno'r medalau ar ran y teulu Gee.

Braint oedd cyfarfod tair a wnaeth gyfraniad nodedig dros achos Iesu Grist, gan gyflawni gwaith fel arolygwyr hefyd yn eu tro. Wedi'r oedfa, fe gafodd pawb gyfle i fynd i'r neuadd yn y pentref, lle roedd 'na luniaeth wedi ei baratoi gan chwiorydd y capel. Wrth i'r tair gael eu cyflwyno, rhannwyd y canlynol amdanynt:



Mae **Dorothy Jones** wedi mwynhau mynychu'r ysgol Sul er pan oedd yn 3 oed yng Nghapel y Parc, ger y Bala, ac yna yng Ngherrigydrudion er 1972. Bu'n arolygwr ysgol Sul dair gwaith ac yn athrawes plant oedran 8–12 yn yr wythdegau. Mae hi'n gefnogol iawn i holl weithgareddau'r capel – y Gymdeithas a'r boreau coffi, ac mae hefyd yn brysur iawn yn paratoi at y Nadolig bob blwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn ei swydd fel yr arolygwr presennol, trefnodd wasanaethau llawn amrywiaeth at achlysuron arbennig – Diolchgarwch, Nadolig, Gŵyl Ddewi a'r Pasg ar gyfer plant ac oedolion y capel.

Cafodd **Eleri Price** ei geni ym Mhen-y-bont, Llangwm. Bu'n aelod yng Nghapel y Groes, Llangwm, lle bu'n ysgrifennydd yr ysgol Sul. Mae ei rhieni a'i nain hefyd wedi derbyn Medal Gee. Priododd â Gwynfor yn 1968 a dod i fyw i Fronheulog, Cerrigydrudion, ac ymaelodi yng Nghapel Jerusalem. Bu'n arolygwr yr ysgol Sul yno ddwywaith ac yn ysgrifennydd y Chwiorydd ers bron i 30 mlynedd. Hi yw trysorydd presennol y Gymdeithas ers naw mlynedd ac mae hefyd yn gyn-ysgrifennydd.

Cafodd **Nesta Richards** ei geni yn Hafoty Isaf, Llanfihangel Glyn Myfyr, a mynychodd yr ysgol Sul yng Nghapel Maes yr Odyn, Llanfihangel, yn blentyn. Priododd yn 1965 a symud i fyw i Bentrellyncymer ac ymuno â chapel yr Annibynwyr, Pentrellyncymer, hyd nes i'r capel hwnnw gau. Ymunodd wedyn â Chapel Jerusalem, Cerrigydrudion. Bu'n gwasanaethu fel arolygwr, athrawes ar y plant bach ac yn cyfeilio yn yr ysgol Sul a'r oedfaon.

Ail-lansio apêl Gaza
Tudalen 2

Cyfarfodydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
Tudalen 3

Souled Out 24 – 'Paratowch ffordd yr Arglwydd'
Tudalen 8

# Ail-lansio apêl Gaza

**Wrth i'r rhyfel yn Gaza agosáu at y garreg filltir erchyll o flwyddyn ers dechrau'r gwrthdaro diweddaraf, mae Cymorth Cristnogol yn ail-lansio ei apêl frys er mwyn helpu'r rheiny sydd wedi eu heffeithio.**

Mae cefnogwyr hael yr asiantaeth ddatblygu ryngwladol wedi codi dros £2 miliwn i helpu pobl sy'n gaeth i'r sefyllfa ledled Israel a Thiriogaethau Meddianedig Palesteina.

Ond mae angen mwy er mwyn parhau i ddod â gobaith a rhoi cefnogaeth i'r miliynau o bobl sy'n ei chael hi'n anodd goroesi, a gweddïo dros heddwch. Mae Cymorth Cristnogol yn gofyn i'w cefnogwyr roi, gweithredu a gweddïo – **drwy ail-lansio'r apêl frys, a chynnal gwylnos ar-lein a chyfarfodydd gweddi misol.**

Esboniodd Mari McNeill, pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru: "Mae ein cefnogwyr wedi bod yn anhygoel gan godi dros £2.2 miliwn hyd yma. Mae hyn wedi ein helpu i gyrraedd dros 800,000 o bobl yn Gaza trwy ein partneriaid lleol i wneud y canlynol:

- rhoi arian i deuluoedd sydd wedi eu dadleoli;
- rhoi cymorth meddygol mewn clinig iechyd teithiol;
- darparu pethau angenrheidiol sylfaenol fel bwyd, dŵr, blancedi, matresi a lloches, gan gynnwys sefydlu gwersyll hygyrch ar gyfer pobl ag anableddau sydd wedi eu dadleoli'n fewnol.

"Mae Cymorth Cristnogol hefyd wedi bod yn gweithio â mudiad cymdeithas sifil Israelaidd yn Tel Aviv, yn eu cefnogi i ddarparu llefydd diogel i gyfarfod yn dilyn trawma 7 Hydref y llynedd.

"Ond mae'r angen yn fawr ac mae mwy y gallwn ni ei wneud, a dyma pam rydym yn ail-lansio ein hapêl Gaza. Gyda chefnogaeth a gweddïau ein cefnogwyr, fe allai Cymorth Cristnogol gyrraedd mwy o bobl â'r cymorth sydd eu hangen arnynt, ac fe fydd yn gwneud hynny."

Esboniodd William Bell, Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth Cymorth Cristnogol y Dwyrain Canol, mai'r unig ffordd i weithio tuag at heddwch cynaliadwy a helpu pobl i ailadeiladu eu bywydau yw trwy gadoediad parhaol, er bod cymorth eisoes yn cyrraedd pobl.

Ychwanegodd: "Mae Cymorth Cristnogol yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud popeth o fewn ei gallu i hyrwyddo diwedd ar feddiannu Gaza a'r Llain Orllewinol.

"Dylai arweinwyr gwledydd dylanwadol y byd alw am gadoediad parhaol a fyddai'n dod i rym ar unwaith. Dyma'r unig wir opsiwn



sydd gennym er mwyn ceisio osgoi marwolaethau rhagor o sifiliaid ac ychwanegu at y trychineb dyngarol hwn."

Mae Cymorth Cristnogol yn galw ar ei gefnogwyr i roi, gweithredu a gweddïo mewn undod â'u cymdogion byd-eang.

- **Rhowch**:
  - **At Apêl Gaza** drwy gynnal casgliad, archebu amlenni neu yn uniongyrchol drwy ein gwefan. Gall £5 ddarparu blancedi cynnes i deulu sydd wedi ei ddadleoli a gall £20 fwydo teulu am wythnos gan ddarparu parsel bwyd llawn hanfodion fel olew a chaws.
- **Gweithredwch:**
  - Drwy arwyddo **deiseb Cymorth Cristnogol** i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a **chysylltu â'ch Aelod Seneddol** i'w (h)annog i gefnogi cadoediad.
  - Drwy ymuno â gweminar a gweithdy **A Just Peace: webinar and workshop,** ar 16 ac 17 Medi, o 7.30yh, ledled y Deyrnas Unedig. Nod y cynllun hwn yw ateb y cwestiynau y gallai pobl fod yn teimlo'n bryderus amdanynt ynghylch heddwch yn Israel a Phalesteina. **I ymuno â'r gweminar, ewch i:** https://www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns/just-peace-webinar-and-workshop.
- **Gweddïwch:**
  - Mae Cristnogion ledled y Deyrnas Unedig wedi bod yn cymryd rhan mewn galwadau Zoom rheolaidd sy'n cael eu cynnal ar y 24ain o bob mis. Mae cyfarfod nesaf **Prayers for Peace ddydd Mawrth, 24 Medi 24, 7–8yh**, a bydd cyfle i glywed gan Nadia Giol ac Anat Asia sy'n trefnu grwpiau i Israeliaid Iddewig a Phalesteinaidd yng Ngalilea, lle maent yn byw, ac ar-lein i bawb ledled y byd. **I ymuno, ewch i:** Prayers for Peace in the Middle East - Christian Aid.
  - **Ymunwch â gwylnos Cymorth Cristnogol** am 8yb ddydd Llun, 7 Hydref. Cofrestrwch drwy'r wefan.

*Nodwch: bydd pob digwyddiad yn Saesneg.*

---

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 22 Medi am 7.30yh – Waldo**

Bydd Nia Roberts yn ymweld â sir Benfro i ddathlu cant ac ugain o flynyddoedd ers geni'r llenor, yr heddychwr a'r Crynwr Waldo Williams. Ymhlith y gwesteion bydd Eluned Richards, nith Waldo, a'r cyn-archdderwydd John Gwilym Jones. Cawn berfformiad arbennig gan Gôr Crymych a daw'r canu mawl o Gapel Bethel, Mynachlog-ddu.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 22 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Arfon Haines Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 22 Medi, am 12:00yp**

Oedfa dan ofal Heulwen Evans, Castellnewydd Emlyn


# Cyfarfodydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

*Dyma grynodeb o'r adroddiad a draddodwyd gan y Parchg Dyfrig Rees o lawr y gynhadledd a gynhaliwyd yn Nhrefforest, Gorffennaf 2024*

Cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Parchg Dyfrig Rees, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, gan edrych yn ôl dros y flwyddyn a fu. Diolchodd am groeso hael Cyfundeb Dwyrain Morgannwg i'r Undeb ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd, eleni ac am y trefniadau a wnaethpwyd gan y pwyllgor trefnu. Nododd fod yr Annibynwyr wedi bod yn yr ardal hon ers cryn amser, gan grybwyll capel Watford, nepell o safle'r cyfarfodydd blynyddol. Dyma achos a gychwynnwyd yn 1662 – hithau'n eglwys y bu Howell Harris yn drwm ei ddylanwad arni. O ran hanes diweddar, mae'n drist nodi i eglwys Annibynnol Sardis, Pontypridd, yr olaf o eglwysi Cymraeg y dre, ddatgorffori llynedd. Cynhaliwyd oedfaon yno'n griw bychan hyd y diwedd. Erbyn hyn mae'r aelodau wedi ymgartrefu'n dda mewn eglwysi eraill.

**Staff a gwirfoddolwyr**

Talodd wrogaeth i'w gyd-weithwyr yn Nhŷ John Penri a diolch iddynt am eu gwaith a'u cydweithrediad dros y flwyddyn. Ymunodd aelod newydd o staff, sef Mrs Meinir Williams, gyda'r criw yn Nhŷ John Penri y llynedd ac eleni ymddeolodd Miss Ann Williams, wedi treulio dros 25 mlynedd yn Ysgrifennydd Gweinyddol yr Undeb. Nododd fod yr Undeb yn dibynnu ar gefnogaeth hanfodol gwirfoddolwyr. Roedd am



pandemig. Y mae Dafydd yn parhau i fod yn un o garedigion yr Annibynwyr, gyda'i gyngor doeth a'i ffraethineb hawdd. Diolchodd Dyfrig iddo a dymuno'n dda iddo ef a Siân. Penodwyd olynydd i Dafydd fel cadeirydd, sef Mrs Annalyn Davies, Gibeon, Bancyfelin a Bethlehem newydd, San Clêr. Dymunwyd yn dda iddi ac i swyddogion ac aelodau'r Cyngor fydd yn dechrau tymor newydd o wasanaeth wedi'r Undeb. Diolchwyd i Geraint Rees am ei arweiniad a'i wasanaeth fel trysorydd a hefyd i'r Llywydd am ei ofal a'i gefnogaeth.

**Ffynhonnau Byw**

Soniodd Dyfrig am apêl Cymorth Cristnogol yr Undeb, sef Ffynhonnau Byw; y mae wedi croesi trothwy £25,000, ac anogodd bawb i barhau i gasglu arian er mwyn cynorthwyo pobl Colombia a'u grymuso. Diolchodd i bawb fu wrthi'n trefnu, yn cynnal digwyddiadau, yn casglu ac yn gweithredu yn enw'r apêl. Bydd yr apêl ar agor tan ddiwedd y flwyddyn. Y mae adnoddau defosiynol amrywiol ar gael ar y wefan i bawb eu defnyddio fel y mynnont, pethau fel podlediad y Cwmni Bach, Eglwys y Mis, gwasanaethau, defosiynau a gweddïau sydd ar wefan annibynwyr.cymru.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchwyd y Dr Cynan Llwyd ar gael ei benodi fel prif weithredwr Cytûn gan nodi mai Cynan yw'r ail Annibynnwr – Noel Davies oedd y cyntaf – i ddal y swydd hon. Y mae'n galondid, meddai, gweld person o'r genhedlaeth iau yn cydio yn y gwaith, ac un sy'n meddu argyhoeddiad Cristnogol dwfn a brwdfrydedd egnïol i garu a gwasanaethu Iesu yn ein dydd. Nododd hefyd fod y Parchg Jill-Hailey Harries wedi ei hurddo'n Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru am y tair blynedd nesaf a'r Parchg Dylan Rhys wedi ei benodi yn aelod o fwrdd CWM ac yn gadeirydd CWM UK.

**Cydweithio**

Crybwyllodd Dyfrig y berthynas newydd â Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd, ac ag Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyda golwg ar y gwaith hyfforddi. Diolchodd hefyd i Carwyn Siddall, y Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau, sydd wedi cyflawni cymaint o waith mewn cyfnod cymharol fyr. Ymhyfrydodd yng ngwaith y Cyngor Ysgolion Sul, y Panel Diogelu, Cymorth Cristnogol, CWM, Cymdeithas Annibynwyr y Byd, Cyngor Eglwysi'r Byd, a Chymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd.




(parhad ar y dudalen nesaf)

*Cyfarfodydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*
*(parhad o dudalen 3)*

**Materion eglwysi a chapeli**
Nododd Dyfrig mai'r math o alwadau ddaw i Dŷ John Penri'r dyddiau hyn yw materion sy'n ymwneud ag ymddiriedolwyr capeli, eiddo eglwysig, adeiladau, mynwentydd, a chyfrifon, eu cadwraeth, eu gwerthiant a'u diogelwch. Y mae'r Undeb wedi ceisio ymateb yn gadarnhaol i'r holl alwadau a chynnig cymorth lle roedd hynny'n briodol. Yn wir, roedd penderfyniad am ddod i lawr y gynhadledd yn gofyn am ymateb penodol ar ran yr Undeb i'r sefyllfa.

Yr ydym mewn cyfnod o drai a cholli o ran niferoedd eglwysi, meddai, ac er nad peth newydd yw datgorffori eglwysi a gwerthiant capeli, dros y 25 mlynedd diwethaf collodd yr Annibynwyr 350 o'u heglwysi. Ond deliwyd â sefyllfaoedd anodd a chymhleth yn effeithiol a boddhaol. Pwysleisiodd Dyfrig mai dim ond un diffyg y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ochel rhagddo, sef esgeulustod. Gall pob eglwys fod â chorff o ymddiriedolwyr cwbl gyfrifol, abl a llwyr alluog i gyflawni eu gwaith. Tynnodd Dyfrig sylw at grantiau'r Drysorfa Gynorthwyol gan nodi bod amryw o eglwysi a gofalaethau wedi gallu manteisio ar y grantiau sydd ar gael ar gyfer Arloesi a Buddsoddi yn ogystal â chynnal gweinidog. Y mae ymddiriedolwyr y Drysorfa'n frwd iawn bod cyfalaf yn cael ei ryddhau ac mae'r gwaith o geisio hyrwyddo a hwyluso'r dymuniad hwn yn un sy'n datblygu'n gyson.

**CWM**
Adroddodd Dyfrig ar Gymanfa CWM Durban, De Affrig, sef 'Codi i fywyd: gyda'n gilydd mewn trawsnewidiad'. Rhoddodd adroddiad byw a llawn o'r gynhadledd, gan sôn am nifer o'r bobl o bob cyfandir a greodd argraff arno oedd yno'n tystio i gariad Duw, yn rhannu ac yn trafod yr hyn y medrwn ni fel Cristnogion ei wneud ar y ddaear hon. Yr ydym oll yn rhan o wead creadigaeth Duw.



## Ordeinio a Sefydlu Hannah

Croeso cynnes i wasanaeth Ordeinio a Sefydlu **Hannah Smethurst** yn Weinidog **Cyswllt (Cenhadaeth Pob Oed)** yng Nghaersalem, Caernarfon (Undeb Bedyddwyr Cymru) ddydd Sadwrn, 12 Hydref, am 2pm.



# Bendith Brasil

Aeth deg ohonom ar daith genhadol i Brasil eleni dan nawdd Eglwys Fedyddiedig Sardis, Resolfen. Mewn tyddyn ym mhentref Tavares, rhyw 300 o filltiroedd o Rio de Janeiro, prifddinas y wlad, yr arhosom ni. Mae gweinidog Sardis (Fortunato Santos), sy'n dod o Brasil, wedi gweinidogaethu yng Nghymru am dros chwarter canrif ac ef a arweiniodd y daith, am y degfed tro yn ei hanes.



Y tîm cenhadol

Dylanwadwyd ar Fortunato gan Caleb Price o'r Tymbl a aeth yn genhadwr i Brasil. Sefydlodd Caleb Price eglwys mewn cwt ieir yn Tavares a dyfodd i fod yn eglwys fywiog heddiw. Teimlodd Fortunato Duw'n ei alw i genhadu yng Nghymru, ac yma y mae o hyd.

Ym 1850 ceisiodd Thomas Benbow Phillips o Dregaron sefydlu trefedigaeth Gymraeg o'r enw Nova Cambria (Cymru Newydd) ym Mrasil, bymtheg mlynedd cyn sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia. Ond methiant fu'r ymdrech a symudodd yn y man i'r Ariannin.

Bu gan Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr (BMS) gysylltiad agos â Brasil am flynyddoedd mawr gan hala cenhadon Cymreig i'r wlad. Cawsom ni groeso twymgalon mewn cartrefi, ysgolion ac eglwysi gan fwynhau gwledd o fwydydd Brasilaidd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd i blant, pobl ifanc, menywod, pobl ag anawsterau dysgu a phobl oedrannus yn Tavares, Para de Minas a Florestal. Ymysg y gweithgareddau yr oedd caneuon, storïau, cwisiau a thystiolaethau. Calonogol oedd deall bod ein hymweliad yn ateb i weddïau'r Cristnogion lleol am gymorth i hyrwyddo gwaith plant ac i greu cysylltiadau â'r ysgolion lleol.



Clwb plant yn Tavares

Uchafbwynt mwya'r daith i mi oedd ymweld â Chanolfan Gristnogol er Adferiad o Gyffuriau. Pregethais yno a rhoddodd gweinidog arall apêl. Rhoddodd un dyn ei fywyd i Grist ac ailgyflwynodd pum dyn arall eu hunain iddo Ef. Clod i Dduw!



Oedfa yn y ganolfan gyffuriau

Gwych oedd gweld aelodau'r tîm yn defnyddio'u doniau'n gyhoeddus. Rhannodd unigolion eu profiadau Cristnogol o flaen y cynulleidfaoedd. A chawsom wasanaeth rhagorol gan ein cyfieithwyr.




Oedfa yn Pará de Minas

Roedd undod hyfryd yn ein plith. Cawsom gyfle i rannu anrhegion gan eglwysi Cymru â'r plant yn Brasil. A chawsom gyfle hefyd i ymweld â rhai o brif atyniadau Brasil, fel traeth Copacabana, mynydd Crist y Prynwr a stadiwm Maracana yn Rio de Janeiro.



Anrhegion gan eglwysi Cymru


Tybed a fyddai taith genhadol o ddiddordeb i chi? Gallwch fod yn berson ifanc neu wedi ymddeol. Byddai asiantaeth genhadol fel y BMS, Operation Mobilisation (OM) neu'r World Evangelisation Crusade (WEC) yn hapus i'ch helpu!

*Peter Davies*


# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones (Cyhoeddiadau'r Gair)

## Rhagarweiniad i Lyfr Ruth




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**




**'Teulu'n gadael cartref i ddianc oddi wrth newyn!' (Ruth 1:1–5)**

Wrth osod teitl cyfoes i'r pum adnod gyntaf, gellir yn wir ymdeimlo â thrasiedi'r teulu. Yma cawn banorama o'r sefyllfa: bod newyn ym Methlehem. Ia, Bethlehem, yn eironig, â'r enw'n golygu, 'tŷ bara'.

Mae gŵr a gwraig a'u dau fab yn dianc rhag newyn Bethlehem ac yn dewis mynd i fyw *dros dro* yng ngwlad Moab. Mynd yno fel ffoaduriaid newyn, a honno'n daith o ryw 50 milltir (80km). I'r teulu o bedwar roedd cyrraedd Moab yn sialens beryglus ynddi'i hun. Roedd yn rhaid teithio drwy fwlch anghyfannedd Jericho, drwy anialwch Jwdea, ac wedyn ar hyd ymyl y Môr Marw cyn croesi'r Iorddonen ac i lawr i'r de i wlad Moab. Doedd dim byd yn hawdd yn y siwrne, ond hefyd, i Iddew, roedd gwlad Moab i fod yn lle i gadw'n glir ohono! (Edrychwch ar fap sydd o fewn y rhan fwyaf o Feiblau er mwyn cael cipolwg o'r daith.)

Roedden nhw'n mynd yno 'i fyw dros dro', ac felly ddim yn bwriadu *aros yn hir*. Mae'r gair Hebraeg yma, sef *guwr*, yn awgrymu cyfnod byr. Doedd dim bwriad, yn ôl y testun, i Elimelech a'i deulu aros ym Moab, jest mynd yno *dros dro*, i ddianc oddi wrth y newyn. Ond erbyn diwedd adnod 2 mae'r teulu yn dewis *aros yno*!

Mewn ychydig adnodau rydyn ni'n clywed bod Elimelech yn marw, bod y ddau fab yn priodi merched o Foab, a'r meibion eu hunain wedyn, ymhen deng mlynedd, yn marw.

Diddorol yma ydy ystyr eu henwau: Elimelech – 'Duw yn frenin'; Mahlon – 'gwael neu sâl', a Chilion – 'gwanllyd'. Efallai fod enwau'r meibion yn egluro pam y bu'r ddau farw'n ifanc ac yn ddi-blant. Down at enwau'r merched yr wythnos nesaf. Ond beth am enw'r tad? Oedd Elimelech wedi caniatáu i Dduw fod yn *frenin arno* wrth iddo arwain ei deulu i le nad oedd Duw eisiau iddyn nhw fynd? Yr ateb ydy 'Na', am mai lle i gadw'n glir ohono oedd Moab.

Trasiedi gadael cartref i'r teulu yma o Fethlehem ydy na wnaeth pethau wella o gwbl iddyn nhw ym Moab, ond yn hytrach gwaethygu'n ddifrifol. Doedd Moab ddim yn lle i wella!

Weithiau rydyn ni'n meddwl y medrwn ni symud i ffwrdd oddi wrth ein problemau. Ond, yn amlach na pheidio, mae'r problemau'n dod hefo ni! Hynny yw, does dim gwahaniaeth lle rydyn ni'n mynd, rydyn ni'n dod â ni ein hunain hefo ni! Felly, os nad yw'r lle newydd yn delio â'n problemau, yr un fydd y canlyniadau neu, yn hanes y teulu yma, fe fyddant yn llawer gwaeth.

I gloi am heddiw, erbyn diwedd adnod 5, mae gennym dair gwraig weddw a dim plant. Yn yr Hen Fyd roedd bod yn weddw ac yn ddi-blant yn gadael rhywun mewn sefyllfa fregus, a hefyd un beryglus. Heb neb i'w cynnal, roedden y tair felly'n gorfod dibynnu ar haelioni dieithriaid. Doedd gan Naomi ddim teulu ym Moab, na neb arall i'w helpu. Roedd ei sefyllfa'n wirioneddol enbyd.

**Cwestiynau i'w trafod**:

1. Sut mae ein penderfyniadau'n effeithio ar weddill ein teulu?
2. Dychmygwch sut yr aeth y 'dros dro' yn ddeng mlynedd?
3. Ble mae 'Moab' heddiw – ac nid yn ddaearyddol?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

Cristnogaeth 21

# Swyddog Cyfryngau C21

**Cyfle i gyfrannu'n greadigol at waith elusen Gristnogol gyfoes a chynhwysol.**

Mae Cristnogaeth 21 yn awyddus i gynnig cytundeb achlysurol i berson cymwys i gydlynu a datblygu ei weithgareddau digidol a chyfryngol.

Prif amcan y swydd fydd cynorthwyo Pwyllgor Gweithredol C21 i gadw gorolwg strategol dros holl gyfryngau digidol y grŵp, ynghyd â datblygu a chydlynu'r cynnwys. At hynny, disgwylir i'r swyddog fedru darparu cyngor technegol cymwys er mwyn cynnal y platfformau digidol presennol a hwyluso datblygu rhai newydd.

Gellir cael manylion pellach drwy anfon neges at cristnogaeth21@gmail.com. Mae manylion am C21 i'w cael ar ein gwefan: www.cristnogaeth21.cymru.

Os am sgwrs, mae croeso i chi ffonio Ysgrifennydd C21, Gareth Ioan, ar 07966 936297.

Dyddiad cau: Dydd Gwener, 18 Hydref 2024.

*Hwylusir C21 gan yr elusen Llusern - Cristnogaeth 21 Cymru (rhif elusennol: 1011618).*

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

GOLEUNI'R BYWYD

## Pwyllgor Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd

Cynhelir

## ENCIL

dan arweiniad Mrs Nerys Siddall

dydd Iau, 26 Medi 2024


yng Nghanolfan Pererin Mary Jones, y Bala (LL23 7YF)

11 o'r gloch

Pris: £16
(paned am 10.30, cinio, a the yn gynwysedig yn y pris)

Enwau i Eirian Roberts (eirian.roberts@ebcpcw.cymru; ffôn 01678 520065)
erbyn 20 Medi, os gwelwch yn dda

# Beibl Mary Jones



**21- 22 Medi**
**10 yb -4 yp**

Mynediad am ddim (croesawir rhoddion)

Ymunwch â ni i ddathlu dengmlwyddiant y Ganolfan drwy groesawu Beibl gwreiddiol Mary Jones o Gaergrawnt.
Dewch i weld y Beibl gwreiddiol a darganfod
**lle mae stori Mary yn mynd â chi ...**

**Yn ychwanegol:**

- Crefftau plant gan Coleg Y Bala (Dydd Sadwrn)
- Arddangosfa Eglwysi a Chapeli'r Bala yn adrodd hanes Cristnogol Y Bala dros y 700 mlynedd diwethaf
- A mwy i'w gadarnhau

Am fwy o wybodaeth:
**helo@maryjones.org.uk**
**01678 521877**

Canolfan Pererin Mary Jones Pilgrim Centre

Y Bala 700 Yma o Hyd

Cymdeithas y Beibl

# ENCIL GWEINIDOGION 2024







Gwesty'r Richmond, Aberystwyth
22ain - 24ain Hydref

## 'Canfod Llawenydd yn y Gair'

Os na lwyddoch chi i gael amser i ymuno efo ni'r flwyddyn ddiwethaf, yna fe gawsoch chi golled. Dyma wahoddiad eto ichi ymuno efo ni wrth inni dreulio tridiau yn mwynhau cwmni'n gilydd a chael ein hadfywio o gwmpas Gair Duw.

### Derbyn

Arfon Jones o Beibl.net fydd yn arwain ein prif sesiynau dysgu. Bydd ef yn rhannu rhai o'r pethau fu'n llawenydd personol iddo fo ac yn newydd iddo wrth iddo ymwneud a Gair Duw fel cyfieithydd ac fel un sy'n dysgu'r Beibl. Bydd yn rhannu sut y bu i'r profiadau hyn fod o gymorth i gynnal ei weinidgaeth.

### Gorffwys

Bydd amser hefyd ar gyfer defosiwn dyddiol, a dewis o weithgareddau hamdden wedi eu trefnu, cerdded neu gael amser rhydd i wneud fel y mynnoch.

Mae'r pethau rwyt ti'n eu dweud mor dda, maen nhw'n felys fel mêl.
Salm 119:103 beibl.net

GOLEUNI'R BYWYD

I ARCHEBU AC OS AM FWY O FANYLION CYSYLLWCH EFO: rhys.jones@ebcpcw.cymru

# Souled Out 24 – ‘Paratowch ffordd yr Arglwydd’




Souled Out 2024 – am wythnos! Mae’r rhan fwyaf o bobl yn ysu am seibiant o beth bynnag maen nhw’n ei wneud o ddydd i ddydd. Rydyn ni i gyd angen yr amser yna o ymlacio, ac i mi y Bala yw’r lle gorau i wneud hynny. Cefais fy nghyflwyno i Goleg y Bala drwy eglwys fy nhref enedigol pan oeddwn yn 13 oed, ac rwyf mor falch fy mod wedi mynd ar y bws mini hwnnw! Y straeon newid bywyd rydw i wedi’u clywed, yn ogystal â’r atgofion da mae wedi’u rhoi i mi, yw’r prif resymau pam roeddwn i, yn 21 oed, yn hapus i yrru fy hun yn ôl yno!

Trwy’r holl amser a dreuliaf yng Ngholeg y Bala, dwi wastad yn cael fy atgoffa bod yna Dduw yn y nefoedd sy’n barod i faddau, yn barod i gysuro ac yn barod i’n gwneud ni’n newydd! Mae hyn mewn gwirionedd yn cyd-fynd â’r thema eleni, sef ‘Paratowch y Ffordd’, lle cawsom gip ar fywyd Ioan Fedyddiwr. Mae’r wythnos hon (fel bob amser) wedi fy ysbrydoli i fod hyd yn oed yn fwy deallgar a gofalgar tuag at y rhai nad ydyn nhw’n gweld pethau yn yr un ffordd â fi. Cryfhawyd fy ffydd fy hun yn ystod yr wythnos hon, ac roedd gweld eraill yn derbyn yr un fendith yn uchafbwynt fy wythnos yn Souled Out 2024.

Nid yw gwneud ffrindiau newydd yn rhywbeth yr wyf bob amser wedi’i gael yn hawdd, ond mae bob amser rywun yn yr ystafell y gallwch uniaethu ag ef, neu sydd o leiaf yn agored i gael sgwrs. Rwyf wrth fy modd â sgwrs ddwfn dda, ac mae’r staff hyfryd yn Souled Out wastad wedi bod yn galonogol a charedig i mi. Ar ôl pob sesiwn, rydyn ni’n eistedd mewn grwpiau bach ac yn mynd dros yr hyn rydyn ni newydd ei glywed gan y siaradwr. Mae’n lle diogel i ofyn cwestiynau neu rannu rhai syniadau, ac mae rhyddid i eistedd yn dawel hefyd. Yn gyffredinol, mae rhywbeth i bawb ei wneud bob amser yn Souled Out, heb unrhyw bwysau i wneud popeth, sy’n dda i rywun fel fi, sydd ddim bob amser y person mwyaf ‘allan yna’.




Yr oedd pob sesiwn yn fendith ynddo’i hun. Siaradodd yr holl siaradwyr yn hyfryd ar y thema ‘Paratowch y Ffordd’. Drwy’r holl sgyrsiau, dysgais ymostwng fy hun a chydnabod mai Duw yw fy nhad sydd am fy nghario drwy holl dymhorau bywyd. Teimlais Dduw yn dweud wrthyf i “ddal ati”, fel y daliodd Ioan Fedyddiwr at ei ffydd hyd y diwedd. Gwnaeth y sgyrsiau fy annog i gadw ar y llwybr hwnnw sy’n arwain tua’r nefoedd. Nid dyma’r hawsaf, ond rydw i wedi dysgu mai dyma’r mwyaf heddychlon, y mwyaf llawen a dyma’r mwyaf ystyrlon.

Mae Souled Out wedi fy annog drwy fy atgoffa pa mor ystyrlon yw adnabod Iesu Grist. Fel rhywun sy’n rhan o’r teulu Cristnogol, gallaf ddweud yn hyderus bod cymorth i’w gael i ddwyn beichiau ein gilydd pan fyddwn yn dod at ein gilydd yn ystod ein teithiau ffydd. Rwy’n credu bod Iesu wedi marw fel y byddai’r pwysau’n cael eu tynnu i ffwrdd. Gwn y gall llawer dystio bod wythnos yn Souled Out yn cymryd y llwyth i ffwrdd.

Rwy’n hapus i rannu fy mod wedi cyrraedd y Bala gydag ychydig o frwydrau a achosodd galon drom. Profi’r pwysau’n cael eu codi a derbyn meddylfryd newydd a gwir heddwch – dyma yw’r teimlad gorau yn y byd! Rwy’n cerdded i ffwrdd bob tro yn cael fy atgoffa bod Duw yn fy ngharu i. Drwy’r holl sgyrsiau, y gweithgareddau a’r amser rhydd yng Ngholeg y Bala, rwyf wedi cael fy atgoffa y byddai’n well gan Dduw imi rannu Iesu ag eraill yn hytrach na’i gadw’n gudd. Er y gallaf faglu neu gadw’n dawel ar adegau, mae gras Duw yn dal yn ddigonol ac ni all unrhyw beth fy ngwahanu oddi wrth ei gariad.

*Deborah Parry*

**Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma gydag ieuenctid hŷn ac oedolion ifanc, cysylltwch â Meryl Walters yng Ngholeg y Bala am sgwrs ar 01678 520565 neu e-bostiwch info@souledoutcymru.net**



Carys ac Alaw yn arwain yr addoliad



Deborah yn rhannu ei gobeithion am y flwyddyn i ddod gyda Alice Evans



Joseff Griffiths yn sôn am gyfleoedd i wasanaethu Duw tramor dros yr haf

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru